



ECAD6002C

BLWYDDYN 3 DARLITH 2 16.10.17
CATRIN EVANS THOMAS / KARA LEWIS

NOD Y WERS HEDDIW ...

- Cyflwyno gwersi meicro: Berfau
- Cyflwyno'r testun : yr AMODOL

GWERSI MEICRO

- Cyflwynwch eich gwers i grŵp arall
- Cofiwch siarad yn safonol!



**YR AMSER
AMODOL**

FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD

Ysgrifennu Blwyddyn 5 –

*‘defnyddio’r amodol i greu
damcaniaeth neu bosibilrwydd,
e.e. pe bai, gallai’*

PA BRYD MAE ANGEN DEFNYDDIO'R AMODOL?

...er mwyn trafod beth **fyddai**'n digwydd
pe bai rhywbeth arall yn digwydd.
Mae'n **amodol** ar neu'n *dibynnu* ar
rhywbeth arall yn digwydd.

PRYD FYDD ECH CHI'N DEFNYDDIO'R AMODOL?

rhai enghreifftiau ...

- mewn llythyr cais am swydd athro / athrawes
 - dweud beth **fasech** chi'n ei wneud pe **tasech** chi'n cael eich penodi
- mewn gwersi gwyddoniaeth (neu unrhyw bwnc)
 - damcaniaethu canlyniad arbrawf
- wrth osod nod y wers
 - beth **hoffech** chi i'r plant ei wneud
- wrth restru rheolau'r dosbarth

Yr Amser Amodol

Dyma'r terfyniadau er mwyn ffurfio'r amodol :

- wn (i)
- et (ti)
- ai (e)
- ai (hi)
- en/em (ni)
- ech (chi)
- en/ent (nhw hwy)

BOD YN YR AMODOL

- Mae mwy nag un ffordd o ddweud “I would” yn Gymraeg.
- Mae mwy nag un ffordd o ddweud “If I would” hefyd.



MWY NAG UN FFORDD

bydd**wn** i
bydd**et** ti
bydd**ai** e
bydd**ai** hi
bydd**em** ni
bydd**ech** chi
bydd**ent** hwy

byddai Siôn
byddai'r plant

bas**wn** i
bas**et** ti
bas**ai** o/hi
bas**em** ni
bas**ech** chi
bas**ent** hwy

basai Siôn
basai'r plant



Tystysgrif
Sgiliau
Iaith Gymraeg



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Berfau Cyffredin

AMODOL



GELLIR DEFNYDDIO BERFAU ERAILL I GYFLEU'R AMODOL.

dylwn i
dylet ti
dylai e
dylai hi
dylen ni
dylech chi
dylen nhw

dylai Siôn
dylai'r plant

e.e. Dylwn i adolygu heno gan fod arholiad gennyf yfory.

Gallu:

Mae gallu'n dilyn
yr un patrwm.

gallwn i
gallet ti
gallai e
gallai hi
gallen ni
gallech chi
gallen nhw

gallai Siôn
gallai'r plant

e.e. Gallwn i chwarae pe bai esgidiau addas gen i.

Hoffi:

Mae hoffi hefyd yn
dilyn yr un patrwm.

hoffwn i
hoffet ti
hoffai e
hoffai hi
hoffen ni
hoffech chi
hoffen nhw

hoffai Siôn
hoffai'r plant

*e.e. Hoffwn i lwyddo yn yr arholiad,
felly mae'n rhaid i mi adolygu.*

Rhai Rheolau:

- Does dim yn/'n yn dilyn y berfau
e.e. gallwn i fynd, dylwn i weithio
- Mae treigladau **meddal** ar ôl y berfau
*e.e. gallai hi **dd**weud, dylen ni **g**ofio*
- Mae'r ferf yn treiglo yn y negyddol
*e.e. **Dd**ylwn i **ddim** bwyta'r gacen olaf*
- Mae'r ferf hefyd yn treiglo mewn cwestiwn
*e.e. **Dd**ylech chi **w**neud hynna?*

I WOULD IF I COULD!

byddwn i
byddet ti
byddai e
byddai hi
bydden ni
byddech chi
bydden nhw

byddai Siôn
byddai'r plant

pe bawn i
pe baet ti
pe bai e
pe bai hi
pe baen ni
pe baech chi
pe baen nhw

pe bai Siôn
pe bai'r plant

e.e. Byddwn i'n hoffi prynu car cyflym pe bawn i'n gyfoethog.

Byddwn i'n mynd i'r traeth pe bai'r tywydd yn boethach.

MWY NAG UN FFORDD!

pe bawn i
pe baet ti
pe bai e
pe bai hi
pe baem ni
pe baech chi
pe baent hwy

pe bai Siôn
pe bai'r plant

petawn i
petaet ti
petai e
petai hi
petaen ni
petaech chi
petaen nhw

petai Siôn
petai'r plant

pe taswn i
pe taset ti
pe tasai e
pe tasai hi
pe tasen ni
pe tasech chi
pe tasen nhw

pe tasai Siôn
pe tasai'r plant

taswn i
taset ti
tasai e
tasai hi
tasen ni
tasech chi
tasen nhw

tasai Siôn
tasai'r plant

swn i/sen i
set ti
sai e
sai hi
sen ni
sech chi
sen nhw

sai Siôn
sai'r plant

Dewiswch un, yn ôl
y sefyllfa, a
byddwch
yn gyson!

NA NEL! WPS!

Y lleill: “Dyw e ddim yn syniad da.”

Nel: “Pam-ham?”

“Beth petaet ti’n sic?”

“Beth petawn i’n sic!”

“Byddai’r sic yn saethu i lawr dros bob man.”

“Byddai’r sic yn saethu i lawr dros bob man! Dyna setlo hynny, ’te. FI fydd ar y gwely top!” A rhoddodd Ted-ted ar y gobennydd. (Wel, roedd e wedi MYNNU dod gyda hi.)

Beth petai’n poeri chwŷd pinc ar ben un o’i ffrindiau? Ar ei ben, yn llythrennol. Hoffai Nel y syniad o gael gwallt pinc, fel Rhian-a neu Cêt ar y Fferi. Candi fflos pinc fyddai’n eistedd ar ei phen, ac yn dirgrynu wrth iddi redeg. Penderfynodd ychwanegu ‘Steilydd gwallt i’r sêr’ at y rhestr o bethau i’w gwneud pan oedd hi’n hŷn – ar ôl y tair ‘A’ oedd ar y rhestr eisoes: arbenigwr codio, astronot ac awdur.

LLANW

‘Weithiau, dwi’n teimlo fel petaet ti’n chwaer i mi,’ meddai Bet yn dawel.

Gorwedddai’r ddwy ohonon ni yn y gwely, Bet yn plethu ’ngwallt fel petai’r weithred yn dod â chysur iddi, a’r tywyllwch yn gwaedu i mewn i’r llofft ac o dan y llenni. Ro’n i’n teimlo fel rhywun gwahanol – nid Llanw. Pwy fyddwn i taswn i wedi cael fy ngeni i’r teulu yma, yn ferch i Mr a Mrs Gruffudd, yn chwaer i Bet? Byddwn yn cael byw yma, yng nghanol y pentref, a chael troedio’r carped meddal bob dydd. Byddwn i’n rhywun arall. Byddai fy enw, hyd yn oed, yn wahanol. Beth fyddai Mrs Gruffudd wedi galw chwaer Bet? Margaret neu Susan neu Ann. Enw cadarn, go iawn.

‘Dwi’n meddwl y byddwn i’n berson hollol wahanol tasa gen i enw go iawn,’ sibrydais.

Syllodd Bet arna i.

‘Bysat, achos fasa gen ti ddim hanes hyfryd Mam Ni Oll yn enwi dy frawd yn Gorwel a chditha’n Llanw.’

‘Ond Bet, be petawn i wedi cael fy ngeni yn efell i ti, a Gorwel yn unig blentyn?’

Trodd Bet ei llygaid at y nenfwd. Roedd ’na ryw olau’n cael ei adlewyrchu’n sglein ar ei hwyneb, er na fedrwn i ddirnad y golau hwnnw mewn ystafell mor dywyll.

‘Mi fasat ti’n debycach i Mam nag ydw i,’ sibrydodd Bet. Mwythodd fy ngwallt tywyll fel petai’n dedi-bêr.

Os a Pe...

- Mae'r ddau air yma'n cyfateb i'r Saesneg *'if'*
- O flaen berfau amodol, rhaid defnyddio'r ffurf **'Pe'** ar ddechrau brawddeg
- Gallwn ddefnyddio **'Os'** o flaen berfau nad ydynt yn amodol

Enghreifftiau...

'Pe bawn i'n artist mi dynnwn lun
Rhyfeddod yn machlud dros Benrhyn Llŷn.'

Berfau amodol sydd yn y frawddeg uchod



'Os llwyddaf yn fy arholiadau eleni,
byddaf yn cymhwyso fel athrawes yn yr haf'

Does dim berfau amodol yn y frawddeg uchod



Gwallau posib...

Defnyddio OS o flaen berf amodol e.e.

Os buasai yn adolygu byddai'n llwyddo.



Mae 'buasai' yn ferf amodol felly rhaid defnyddio Pe yn hytrach nag Os

Cywiriad:

Pe buasai'n adolygu byddai'n llwyddo.

Ble mae'r gwall?

- Os buaswn i'n cael fy newis, byddwn yn derbyn y cynnig.
- Os byddem ar amser, gallem gael cyfnod yn yr amgueddfa.
- Os buasai yn dysgu ei waith byddai'n siwr o bario'r arholiad.

Sut ydw i'n egluro'r gwall?

Mae'n rhaid defnyddio
'Pe' o flaen berf amodol
ar ddechrau brawddeg

YMARFER 1: LLENWCH Y BYLCHAU GYDA'R FFURFIAU CYWIR.

1. _____ i'n mynd i'r traeth _____ hi'n dywydd poeth.
2. _____ ni lanhau'r ystafell, mae hi'n fler iawn.
3. _____ gen ti feic, _____ ti'n gallu ei ddefnyddio i fynd i'r ysgol.
4. _____ chi ddarllen y llyfr, mae'n wych.
5. _____ nhw fynd yno am wyliau, dwi'n gwybod y _____ nhw wrth eu bodd gyda'r lle.
6. _____ i'n derbyn y swydd, _____ fy nghyflog yn uwch.
7. _____ disgyblion wrando'n astud bob amser er mwyn deall y gwaith.
8. _____ Guto yn gweithio, rwy'n siŵr y _____ e'n llwyddo.

YMARFER 1: (PARHAD)

9. _____ i yn eich lle chi, _____ i'n mynd ar fy ngwylliau eleni.
10. _____ chi brynu car gyda'r arian sydd gennych chi yn y banc.
11. _____ ti gynilo dy arian er mwyn i ti brynu car.
12. _____ chi ddod gyda mi ar y daith i Ffrainc?
13. _____'n well i ni gyfaddef i'r prifathro am dorri'r ffenestr!
14. _____'r plant ddim yn hoffi cael mwy o waith cartref.
15. _____ i'n cael gwylliau _____ i'n mynd ar long.

YMARFER 1: LLENWCH Y BYLCHAU GYDA'R FFURFIAU CYWIR.

1. Byddwn i'n mynd i'r traeth pe bai hi'n dywydd poeth.
2. Dylen ni lanhau'r ystafell, mae hi'n fler iawn.
3. Pe bai gen ti feic, baset ti'n gallu ei ddefnyddio i fynd i'r ysgol.
4. Dylech chi ddarllen y llyfr, mae'n wych.
5. Dylen nhw fynd yno am wyliau, dwi'n gwybod y byddan nhw wrth eu bodd gyda'r lle.
6. Pe bawn i'n derbyn y swydd, byddai fy nghyflog yn uwch.
7. Dylai'r disgyblion wrando'n astud bob amser er mwyn deall y gwaith.
8. Pe bai Guto yn gweithio, rwy'n siŵr y byddai e'n llwyddo.

YMARFER 1: (PARHAD)

9. Pe bawn i yn eich lle chi, byddwn i'n mynd ar fy ngwylliau eleni.
10. Dylech chi brynu car gyda'r arian sydd gennych chi yn y banc.
11. Dylet ti gynilo dy arian er mwyn i ti brynu car.
12. Hoffech chi ddod gyda mi ar y daith i Ffrainc?
13. Byddai'n well i ni gyfaddef i'r prifathro am dorri'r ffenestr!
14. Fyddai'r plant ddim yn hoffi cael mwy o waith cartref.
15. Pe bawn i'n cael gwylliau byddwn i'n mynd ar long.

Wrth gwrs, y mae'r amrywiadau eraill yn dderbyniol hefyd, yn dibynnu ar y cyd-destun

Ymarfer 2:

Beth fyddai'r deg peth cyntaf y **byddech chi'n** wneud **pe baech chi'n** ennill y loteri?

e.e. Pe bawn i'n ennill y loteri, byddwn i'n.....

Ymarfer 3:

Mae Dafydd eisiau byw yn iach, ysgrifennwch 10 syniad sut y **gallai** neu y **dylai** Dafydd wneud hyn.

*e.e. **Dylai** Dafydd wyllo llai o deledu bob nos.
Gallai Dafydd fwyta mwy o ffrwythau.*

Ymarfer 4:

Ysgrifennwch 10 cyfarwyddyd yn dangos i ddisgyblion eich dosbarth beth **na ddylen nhw** ei wneud yn yr ystafell ddosbarth.

*e.e. **Ddylech chi ddim...***

TASG LAFAR

Rydych chi mewn caffi, ac eisiau archebu bwyd.
Mewn grwpiau o bedwar / bedair, cymrwch eich tro i chwarae rôl y gweinydd a'r cwsmer.


Cofiwch ddefnyddio digon o ferfau amodol wrth achebu eich pryd o fwyd, ac wrth holi cwestiynau i'ch cwsmer.

e.e. **Hoffwn** i archebu'r ysgytlaeth mefus, os gwelwch yn dda.

Hoffech chi un mawr neu un bach?

Ddylwn i ddim cael un mawr, rwy'n ceisio colli pwysau!

Dim problem - **gallaf** wneud ysgytlaeth bach i chi.




MAE'R BYD AR FIN CAEL EI
DDINISTRIO! MAE HAWL GYDA
CHI ACHUB 6 LLYFR A MYND Â
NHW I'R BYNCAR TANDDAEAROL.


PA CHWECH O'R RHESTR YMA
FYDDECH CHI'N EU DEWIS?



Rhowch gynnig arni!



PWYSICAF



Chwedlau'r Mabinogi

Llyfr hanes Cymru

Nofel o'ch dewis

Beibl

Llyfr am bêl-droed

Geiriadur Cymraeg

Gwyddoniadur

Atlas y byd

Llyfr garddio

Llyfr am enwogion mewn hanes

Llyfr coginio

Llyfr lluniau o adeiladau enwog

Llyfr meddygol

PWYSICAF

Rhaid i chi ddefnyddio berfau
amodol wrth drafod.

*Cofiwch ddefnyddio 'os' a
'pe' yn gywir.

Dylech chi wrando'n ofalus ar
eich gilydd.

Beibl

G

Llyfr lluniau o c

enwog

ha

Llyfr coginio

Llyfr meddygol

wis

Cymraeg

lyfr garddio

ADFIFYRIO

- Ydw i wedi deall y berfau amodol?
- Ydw i'n gwybod pryd i ddefnyddio 'os' a 'pe' yn gywir?
- Sut galla i ddefnyddio'r patrymau yn y dosbarth?